**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-06-99(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29 Medi 1999 |
| **Amser:** | 09.00-12.40 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | **Aelodau** | (Etholaeth) |
| | Val Feld (Cadeiryddes) | Dwyrain Abertawe |
| | Rhodri Morgan (Ysgrifennydd y Cynulliad) | Gorllewin Caerdydd |
| | Ron Davies | Caerffili |
| | Michael German | Dwyrain De Cymru |
| | Phil Williams | Dwyrain De Cymru |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Brian Hancock | Islwyn |
| | Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| | Ann Jones | Dyffrun Clwyd |
| | | |
| | **Swyddogion** | |
| | Michael Cochlin | Cyfarwyddwr y Grðp Datblygu Economaidd |
| | Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd |
| | Steve Phillips | Pennaeth yr Adran RDD |
| | Michael Phelps | Cynghorydd Economaidd |

| | |
|---|---|
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid |
| Emyr Roberts | Pennaeth yr Adran Cynllunio Cyllid |
| Allan Moss | Adran Diwydiant a Pholisi Hyfforddi |

**Cyflwyniad gan:**

| | |
|---|---|
| Rona Fitzgerald – (eitem 4) | Canolfan Ymchwil Polisi Ewropeaidd, Prifysgol Ystrad Strathclyde |
| Sheila Potter – (eitem 4) | Cyfarwyddwr Gweithredol, Chwarae Teg |

**Adran Ysgrifenyddol**

| | |
|---|---|
| Helen Usher | Clerc |
| Joanne Glenn | Dirprwy Glerc |

**Sylwadau agoriadol o'r Gadair**

Cafwyd gair o'r Gadair yn:

- atgoffa aelodau'r Pwyllgor bod croeso iddynt siarad yn Gymraeg neu Saesneg;
- dymuno penblwydd hapus i Rhodri Morgan;
- hysbysu'r pwyllgor bod y drafodaeth ar ETAG wedi'i gohirio tan 13 Hydref er mwyn cael trafodaeth lawn ar y materion sy'n ymwneud â chronfeydd strwythurol a ystyriwyd yn fwy o flaenoriaeth. Roedd hi wedi cysylltu â'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl–16 a oedd yn golygu bod amser o hyd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd roi ei sylwadau.

**1. Eitem 1: Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi**

1. Cynigiodd Helen Mary Jones ddau welliant:

- newid paragraff 2.3 i gynnwys y pwynt a gytunwyd eisoes ynglþn â dod â chyfarfodydd ar fore dydd Mercher i ben erbyn 12.30pm;
- newid '**cyn bo hir**' i '**o fewn chwe mis**' yn yr ymadrodd ym mharagraff 6.5 'Chaiff adroddiad ei anfon at y Pwyllgor cyn bo hir'.

2. Ar faterion yn codi:

- cyflwynwyd papur ar newidiadau mewn lefelau diweithdra'n unol â'r cais ym mharagraff 3.7 (EDC-06-99 (p12W))
- câi drafft diwygiedig yn sgîl cyfarfod o'r Tasglu ei anfon at aelodau erbyn diwedd yr wythnos (paragraff 4)
- Gyrrwyd gwybodaeth oddi wrth y Fforwm Economaidd Newydd at aelodau (paragraff 5.8)
- Paragraff 7 - daeth y papur ar faterion ariannol (EDC-06-99 (p4W)) yn hwyr ac nid oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y Pwyllgor. Dywedwyd wrth y Gadeiryddes nad oedd yr holl wybodaeth ar gael eto, ond y byddai ar gael yn fuan. Ymddiheurodd Ysgrifennydd y Cynulliad wrth y Pwyllgor..

3. Roedd nifer o geisiadau cyffredinol:

- y dylid rhoi trefn fwy rhesymegol ar bapurau pwyllgor (drwy gysylltu papurau ag eitemau agenda) a system rhifo
- ni ddylid cynnal cyfarfodydd a sesiynau briffio ychwanegol ar ddydd Llun na dydd Gwener am fod aelodau wedi ymrwymo i gefnogi digwyddiadau yn eu hetholaethau ar y dyddiau hynny. Defnyddid prynhawn dydd Iau ble bynnag y byddai modd.

4. Dywedodd y Gadeiryddes ei bod am sicrhau bod gan y pwyllgor amser i drafod pynciau sy'n ymwneud â'r rhan y mae'r sector preifat yn ei chwarae mewn rhaglenni Ewropeaidd ac amser i drafod materion is strwythur TG a TGC.

**Gweithredu**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** i ddiwygio'r cofnodion ar gyfer 15 Medi.

**2 Eitem 2: Adroddiad llafar Ysgrifennydd y Cynulliad**

1. Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad iddo gyflwyno gwybodaeth yn ddiweddar yn un o sesiynau llawn y Cynulliad am ddyfodol Laura Ashley. Cyhoeddwyd y datblygiadau canlynol:

- roedd tri aelod o Fwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru'n nesáu at ddiwedd eu cyfnod yn y swydd. Penderfynwyd hysbysebu yn y wasg yn ystod y pythefnos nesaf am aelodau newydd i gymryd eu lle ac ymgynghori'n fuan ag Ann Jones a Mike German am mai hwy oedd yr aelodau pwyllgor a oedd yn ymwneud â'r broses benodi.
- Tynnodd Ysgrifennydd y Cynulliad sylw at rali Rhwydwaith Q a fydd yng Nghaerdydd am y tair blynedd nesaf ac a fydd yn defnyddio fforestydd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Am fod y rali'n digwydd ym mis Tachwedd, y mae'n gyfle dihafal i estyn y sylw a gaiff Cymru yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd am ychydig yn fwy.
- Mae Ysgrifennydd y Cynulliad yn edrych a oes arian ar gael i'w noddi;
- Cyhoeddodd Banc Barclays rwydwaith rhanbarthol o gronfeydd cyfalaf menter. Roedd swyddogion yn ceisio cael rhagor o wybodaeth am hyn;
- Nid oes ffigyrau Cynnyrch Domestig Gros ar gael ar gyfer Cymru yn ystod ail chwarter y flwyddyn ond y mae'r ffigyrau ar gyfer y DU gyfan yn 1.4% yn uwch na blwyddyn yn ôl.

2. Yn ystod sesiwn holi ac ateb Ysgrifennydd y Cynulliad, gofynnodd aelodau pam yr oedd cymaint o swyddi'n dal i ddiflannu o'r sector cynhyrchu (collwyd 14,000 o swyddi rhwng Mehefin 1998 a Mehefin 1999) pan oedd yr economi, yn ôl y Llywodraeth, yn gwella. Tynnodd Ysgrifennydd y Cynulliad sylw at yr anawsterau a achosodd y bunt uchel yng Nghymru gan eu cymharu â'i heffaith ar dde ddwyrain Lloegr.
1. Holodd aelodau am ddyfodol hen safle Lucas. Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod bargen bron wedi'i tharo â phrynwr preifat. Serch hynny, ni fyddai'n golygu mwy na rhyw 200 o swyddi o'u cymharu â'r 2,000 yr oedd Lucas yn eu cyflogi ddwy flynedd yn ôl.
2. Cadarnhawyd y byddai swyddogion yn cysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ynglþn ag adolygu'r cymorth sydd ar gael i fusnesau bach.

**Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol, Amcanion 1 a 3**

3. **Eitem 3: Diweddariad**

1. Dywedodd y Gadeiryddes i'r cyfarfodydd ymgynghorol fod yn ymarfer gwerth chweil a'i bod yn arbennig o falch bod cynifer o bobl i'w cael ym mhob cyfarfod. Tynnodd sylw'r aelodau at chwe phwynt allweddol a gododd o'r cyfarfodydd:

- Cydbwysedd rhwng gweithredu'r strategaeth yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol
- Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu adnoddau dynol
- Mae angen sicrhau bod mwy o ddiddordeb gan y sector preifat
- Pynciau sy'n codi yn sgîl TG a chwestiynau am y fframwaith mewnol
- Targedau y gellir eu cyrraedd sy'n ceisio codi'r gwahanol rannau o Gymru i'r un lefel yn hytrach na thargedau sy'n edrych ar lefel Cymru gyfan
- Pynciau gweithredu - dulliau gweithredu, amserlenni a'r angen i sicrhau bod arian ar gael yn gynnar yn y rhaglen i sefydliadau bach, rhai preifat a rhai gwirfoddol

2. Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Pryder am fod llai o gynrychiolwyr o'r sector preifat nag o'r sector cyhoeddus wedi mynychu'r cyfarfodydd
- Cafodd y Gadeiryddes ei llongyfarch am gadeirio'r cyfarfodydd ymgynghorol mor llwyddiannus ac am gymell y bobl a oedd yn bresennol i wneud sylwadau mor amrywiol
- Pryder ynglþn â phryd byddai arian ar gael i noddi sectorau fel y sector gwirfoddol a busnesau bach a chanolig sy'n cael eu cyfyngu i amserlenni tynnach o lawer na busnesau mawr.
- Cais am godi'r pynciau allweddol sy'n sylfaenol i'r chwe phwynt o'r cyfarfodydd.

  Gofynnwyd am gyfuno'r rhain â dogfennau diwygiedig y tasglu.

- Roedd pecyn gwybodaeth am y cyfarfodydd ymgynghorol i gael ei anfon at aelodau'r prynhawn hwnnw.

3. Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y Tasglu y diwrnod cynt oddi wrth swyddogion. Yn

dilyn ei ymarfer ymgynghorol ei hunan, roedd y Tasglu wedi ailddrafftio'r tair dogfen er mwyn dangos bod y prif argymhellion y bwriadwyd eu cyflwyno i'r Cynulliad wedi'u cytuno. Roedd y dogfennau a ailddrafftiwyd, er nad oeddynt yn ddogfennau terfynol, i gael eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor erbyn diwedd yr wythnos. (Ond y mae cryn dipyn o waith cymhennu ar y ddogfen o hyd). Tynnwyd sylw at dri phwynt a gododd o gyfarfod y Tasglu:

- Gwelwyd y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol fel dogfen gyffredinol y dylai'r Cynulliad ei defnyddio i ymdrin â materion economaidd ehangach.
- Ar ôl gweithredu'r strategaeth, cytunwyd mai cyfuniad o raglenni lleol a chenedlaethol fyddai'r cynllun mwyaf effeithiol.
- Roedd y Tasglu'n argymell y dylai'r Cynulliad gyfnewid ei ddull lluosog o weithredu am ddull symlach sy'n canolbwyntio ar reoli prosiectau ac yn argymell sefydlu ysgrifenyddiaeth newydd y tu fewn i'r Cynulliad i gydweithio mewn ffordd broactif â phartneriaeth y Tasglu.

4. Roedd sylwadau cyntaf y Pwyllgor ar y dogfennau wedi'u derbyn. Dywedodd y Gadeiryddes wrth y Pwyllgor iddi ofyn i'r Pwyllgorau eraill roi eu sylwadau ar y dogfennau a'u bod am gyflwyno'r rhain yng nghyfarfod y pwyllgor ar 4 Hydref. Bu trafodaeth am y gwrthdaro rhwng awydd awdurdodau lleol am ddechrau ar eu prosiectau cyn gynted â phosibl, a chyngor swyddogol sy'n awgrymu y byddid yn cychwyn yn araf yn ystod y flwyddyn gyntaf o nawdd. Gofynnwyd i swyddogion a oeddynt yn archwilio ffyrdd o symud ymlaen yn gyflymach er mwyn gallu cychwyn prosiectau cyn gynted ag y byddai'r arian ar gael. Eu hateb oedd ei bod yn anymarferol cychwyn ym mis Ionawr ond y gellid cychwyn ym mis Ebrill os yw'r Pwyllgor yn cadw at ei amserlen.

**Gweithredu**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

- Ysgrifenyddiaeth y pwyllgor i ddarparu crynodeb o'r ymatebion i ymarfer ymgynghorol y pwyllgor erbyn y cyfarfod ar 4 Hydref os yw hynny'n bosibl
- Sylwadau'r pwyllgorau eraill i gael eu hanfon ymlaen at Aelodau a swyddogion

**Ysgrifennydd y Cynulliad**

- I ddosbarthu dogfennau diwygiedig i aelodau'r Pwyllgor erbyn diwedd yr wythnos
- I ddarparu gwybodaeth gyfredol am weithredu'r Strategaeth ar 4 Hydref

**4 Eitem 4: Cyfle Cyfartal**

1. Wrth gyflwyno'r ddau siaradwr ar gyfer yr eitem hon ar yr agenda, dyfynnodd y Gadeiryddes y Comisiwn Ewropeaidd a oedd wedi enwi cyfle cyfartal fel un o bedwar conglfaen y cronfeydd strwythurol. Roedd Cytundeb Rhufain wedi darparu ar gyfer sicrhau cyflogau cyfartal i ddynion a menywod mewn swyddi cyfatebol ac roedd Cytundeb Amsterdam wedi estyn y ddarpariaeth ysgrifenedig i sicrhau mwy o gydraddoldeb rhywiol, ac wedi dod ag anabledd a materion eraill o fewn cwmpas gallu yr UE. Tynnodd y Gadeiryddes sylw at gyflwyniadau ar yr eitem hon ar yr agenda oddi

wrth y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Anabledd Cymru Ffederasiwn Busnesau Bach.

**Rona Fitzgerald, Y Ganolfan Bolisi Ewropeaidd, Prifysgol Strathclyde**

2. Cyflwynodd Ms Fitzgerald y cysyniad o 'brif-ffrydio' a ddiffiniwyd fel 'ystyried yr holl wahaniaethau rhwng amodau, sefyllfaoedd ac anghenion menywod a dynion ym mhob polisi cymunedol yn ei dro wrth ei gynllunio, ei weithredu a'i gloriannu'. Roedd y cysyniad hwn yn ganolog i bolisi cyfle cyfartal yr Undeb Ewropeaidd. Ni fyddai modd sicrhau strategaeth lwyddiannus er mwyn ymdrin â diffyg cydraddoldeb heb fynd ati ar ddechrau prosiect i 'brif-ffrydio'. Awgrymodd y Ganolfan Bolisi Ewropeaidd y dylai'r ffordd o reoli a gweithredu'r gronfa strwythurol fod yn fath o gylch daionus sef symud ymlaen mewn cylch o'r cyfnod dadansoddi a datblygu strategaeth at gyfnod o asesu'r prosiect, monitro ei weithredu a'i gloriannu. Prif elfen yn y broses fyddai bwydo'r cynnydd ar ddiwedd pob cam a gofnodwyd i mewn i'r cam nesaf gan ychwanegu ato. Pwysleisiodd Ms Fitzgerald y byddai angen data sylfaenol ar gyfle cyfartal cyn gosod unrhyw dargedau neu byddai perygl o osod targedau anymarferol a allai arwain at siom yn y pendraw.

3. Gan edrych ar y materion sydd o bwys i Gymru, dywedodd Ms Fitzgerald y dylai Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol gynnwys ymrwymiad i 'brif-ffrydio' a diffiniad ohono. Cytunodd i anfon diffiniad diwygiedig o'r term at y Pwyllgor a oedd yn cwmpasu'r agweddau ehangach ar gyfle cyfartal yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion cydraddoldeb rhywiol. Mae gan Gymru bobl a sefydliadau medrus ym maes cydraddoldeb ond byddai angen amser, staff a chyllid arnynt iddynt gael gweithredu'n effeithiol. Hefyd, os yw staff i gymryd mwy o ran mewn monitro diffyg cydraddoldeb , y mae angen eu hyfforddi yn y sgiliau priodol. Dylai 'prif-ffrydio' sicrhau yn y pendraw fod cyfle cyfartal yn rhan o orchwyl gwaith pob pwyllgor monitro a'i fod felly'n gyfrifoldeb i bawb. Roedd angen ystyried cydbwysedd rhywiol pwyllgorau a gosod targedau. Roedd yn hanfodol bwysig cysylltu cyfle cyfartal â datblygu economaidd.

4. Wrth dderbyn cwestiynau, dyfynnodd Ms Fitzgerald ddiffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o 'brif-ffrydio' sef 'edrych ar lunio polisi bob amser o safbwynt cydraddoldeb rhywiol. Ystyried anghenion dynion a menywod o ran eu hangen am gydbwyso gwaith a bywyd teuluol'. Roedd cyfle cyfartal yn golygu gosod targedau, diffinio 'prif-ffrydio' a chefnogi pobl sy'n fodlon gweithio tuag ato. Soniodd am yr angen i sicrhau fod mwy o fenywod yn cymryd rhan ym mhwyllgorau'r rhaglen. Dylid gwneud hyn fesul dipyn gan ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth. Mae angen llawer o wybodaeth a sgiliau ar gyfer gweithredu rhaglenni'r Gronfa Strwythurol ac nid yw o fudd i fenywod nac i grwpiau eraill os nad oes gan gynrychiolwyr y sgiliau angenrheidiol. Awgrymodd hefyd y dylid cynnwys ymrwymiad i brif-ffrydio yng nghylch gorchwyl pob pwyllgor rhaglen gan y byddai hynny'n sicrhau fod pob aelod o'r pwyllgor yn gyfrifol am brif-ffrydio i'r un graddau trwy gydol y broses.

**Sheila Potter, Cyfarwyddwr Gweithredol, Chwarae Teg**

5. Sefydlwyd Chwarae Teg saith blynedd yn ôl a daeth yn awdurdod erbyn hyn ym maes datblygiad economaidd menywod. Canolbwyntiodd ei gynllun gweithredu ar bolisïau a oedd yn ffafrio teuluoedd ac yn cefnogi menywod busnes a threfniadau gofal plant rhesymol o ran cost a hawdd eu defnyddio.

6. Roedd lefel gofal plant yng Nghymru gyda'r isaf yn yr Undeb Ewropeaidd. Cyfeiriodd archwiliadau gofal plant yn ystod y 1990au at anallu rhieni i dalu am ofal plant a diffyg cyfleusterau fel y prif ffactorau. Roedd y diffyg darpariaeth ar gyfer gofal plant yn rhwystro twf economaidd. Roedd yn cyfyngu ar allu cwmnïau i recriwtio a chadw staff.

7. Nid oedd gan fenywod ddigon o gynrychiolaeth ym maes busnes yng Nghymru (3 dyn am bob menyw) ond, er gwaethaf hynny, roedd busnesau o dan reolaeth menywod yn chwarae rhan hanfodol bwysig mewn cynnal cymunedau. Mewn ardaloedd gwledig, roedd nifer y menywod busnes ddwywaith y nifer ar gyfartaledd yn genedlaethol. Dylid edrych ar gynyddu nifer y menywod busnes fel mater o flaenoriaeth ac er mwyn ymdrin â hyn roedd Grðp Gweithredu Menter Cymru Gyfan (gweithgor a alwyd ynghyd ac a gadeiriwyd gan Chwarae Teg) wedi nodi fframwaith wyth pwynt ar gyfer gwella'r model cymorth busnes:

- Roedd darpariaeth ar gyfer menywod yn unig yn fanteisiol ac yn angenrheidiol i rai menywod, yn enwedig wrth iddynt fynd ati i gychwyn busnes
- Dylai hyfforddiant busnes fod yn hyblyg o ran lle, amser a'r gallu i fanteisio ar ofal plant
- Dylai hyfforddiant dilynol fod yr un mor hyblyg a gallai o bosibl gynnwys ariannu rhwydweithiau busnes a chynghori.
- Dylid cymryd mwy na gwarant gyfochrog i ystyriaeth pan fydd menywod yn gwneud cais am gymorth ariannol
- Roedd angen gofalu bod pecynnau cymorth ar gael i'r di-waith a'r cyflogedig fel ei gilydd. Bydd y rhai sy'n droi o fod yn gyflogedig i fod yn hunan-gyflogedig yn helpu rhyddhau swyddi ar gyfer y di-waith.
- Mae'n rhaid i raglenni newydd gydnabod fod yr economi wedi peidio â bod yn economi cynhyrchu i raddau helaeth a chynnwys dulliau o gynorthwyo diwydiannau gwasanaeth a gwybodaeth.
- Mae'n rhaid cyd-drefnu unrhyw waith ymchwil penodol parhaus, a dylai hwnnw gynnwys ymchwil i symbyliad ac uchelgais fusnes.

8. Yn ystod y sesiwn holi ac ateb codwyd y pwyntiau canlynol:

- Ffactorau eraill a oedd yn rhwystr wrth sicrhau gofal plant effeithiol oedd gweithio stemiau a methu â chael hyd i ddarpariaeth gofal plant yn iaith y teulu.
- Er bod menywod yn llai tebygol o gychwyn busnes na dynion, roedd tueddiad i fusnesau menywod barhau am fwy o amser
- Gallai anawsterau godi gyda chynghori pan oedd gan gynghorwyr hþn agweddau nad oeddent yn adlewyrchu y cydbwysedd yn y gweithlu a fwriadwyd.
- Awgrymwyd y dylid cyfrif gofal plant fel traul busnes (gan sicrhau y manteision treth yn sgîl hynny) a byddai hynny o gymorth i fusnesau bach iawn a busnesau bach a chanolig
- Dylai'r Cynulliad ystyried a ddylai'r Ysgrifenyddiaeth a gynigiwyd gan y Tasglu recriwtio arbenigwyr cyfle cyfartal a allai gynghori noddwyr prosiectau yn gynnar yn ystod datblygiad prosiect. Roedd y drefn bresennol lle roedd tri aelod o staff yn yr uned cyfle cyfartal yn annerbyniol.
- Perygl 'prif-ffrydio' cyfle cyfartal a'i wneud yn gyfrifoldeb pawb, oedd na fyddai wedyn yn waith penodol i neb
- Roedd newid diwylliannol yn cymryd amser a dylid cydnabod hynny wrth osod targedau.

**Crynodeb y Gadeiryddes**

9. Roedd y Gadeiryddes wedi diolch i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau eglur a defnyddiol. Tynnodd sylw at y canlynol:

- yr angen i ymgorffori'r egwyddor o brif-ffrydio cyfleoedd cyfartal yn y ddogfen un rhaglen;
- yr angen i ystyried cyfle cyfartal wrth drafod cynigion i'w gweithredu;
- diffyg data a monitro sylfaenol a dywedodd y câi'r pwyntiau hyn ragor o sylw wrth drafod targedau.

**Gweithredu**

**Rona Fitzgerald**

Anfon diffiniad diwygiedig o 'brif-ffrydio' a allai gael ei gynnwys yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol a dogfennau amcan 1.

**5. Eitem 5: Targedau**

5.1 Cyflwynodd Michael Phelps ddau aelod o'r panel o arbenigwyr, David Blackaby a Brian Morgan, oedd wedi cyflwyno papur (EDC-06-99 (p3W)) i'r Tasglu. Tasg y panel oedd ystyried a oedd y targedau oedd wedi eu gosod allan yn y strategaeth ddatblygu genedlaethol yn realistig. Gofynnodd y panel ai CDG y pen oedd y targed strategol, unigol, cywir. Roedd hyn wedi ei ddylanwadu gan yr union fan cychwyn a chyflymder twf yr economi. Roedd y twf Cymreig cyffredinol yn dibynnu ar gyflymder twf economi'r DU a'r rhagolwg cyfredol oedd rhwng 2 1/4% a 2 1/2% y flwyddyn. Byddai'n rhaid i dwf yng Nghymru fod oddeutu 3 1/4% i 3 3/4% i gyrraedd targed o 90% o CDG y DU y pen. Gwelwyd hyn felly fel targed llawn her ond nid amhosibl.

5.2 Dim ond gyda chynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth a chynhyrchiant y byddai CDG yn codi. Cyfraddau segurdod yn hytrach na diweithdra uchel oedd yn gyfrifol am y lefelau isel o gyflogaeth yng Nghymru. Roedd angen cynyddu allbwn y pen. Nid gweithwyr anghynhyrchiol oedd y broblem yng Nghymru ond y Gymysgedd o swyddi a'r Gymysgedd o ddiwydiannau. Pe bai cyfraddau segurdod a chynhyrchiant yn cael eu taclo, cytunodd y panel y gallai lefel CDG y pen godi i'r lefel angenrheidiol, ond heb ymyrraeth weithredol ni fyddai'r targed yn cael ei gyrraedd.

5.3 Roedd y panel yn ffafrio defnyddio CMC fel targed strategol unigol am ei fod yn llinyn mesur a gaiff ei ddeall yn rhyngwladol. Roedd yn cydnabod nad yw'n ystyried y gwahaniaethau rhanbarthol y byddent yn disgwyl iddynt gael eu hystyried ar y cyd â strategaeth y Cynulliad ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

5.4 Bu trafodaeth wedyn pryd y codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd teimlad cryf y dylid cael targedau i sicrhau fod gorllewin Cymru a’r cymoedd yn cael eu codi o gymharu â gweddill Cymru. Heb dargedau o’r fath ni fyddai’r ailddosbarthu adnoddau a’r twf economaidd angenrheidiol yn digwydd.

- Bu holi am y pwyslais ar gyfraddau segurdod ac allbwn y pen gan fod angen sicrhau hefyd fod swyddi ar gael yn y lle cyntaf. Dylai fod mwy o bwyslais ar sgiliau.

- Dylai fod ffyrdd o gadw cyfoeth a gynhyrchwyd yng Nghymru o fewn Cymru. Ymateb y panel oedd y byddai’r dull hwn, o’i weithredu i’w eithaf rhesymegol, yn groes i egwyddor masnach rydd. Gwell oedd canolbwyntio ar gael ailfuddsoddi yng Nghymru. Fodd bynnag cytunodd pawb y dylai fod mwy o alw am gynhyrchion Cymreig.

- Trafodwyd dewisiadau heblaw cymharu CMC Cymru â gweddill y Deyrnas Unedig. Nid oedd cymharu â’r Undeb Ewropeaidd fel yn ddewis boddhaol. Gellid cymharu gorllewin Cymru â Chymru gyfan, ond cytunwyd ei bod yn bwysig cael dadansoddiad o Gymru gyfan a phe byddai gorllewin Cymru’n perfformio’n dda gallai hyn guddio’r ffaith nad oedd dwyrain Cymru wedi perfformio’n dda.

- Dylai ymchwil sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan y Panel Cartrefi Prydeinig ddarparu data rhanbarthol mwy manwl. Yn eironig, casglwyd data ar gyfer y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ar lefel ranbarthol ond yna fe’i cyhoeddwyd ar lefel genedlaethol a bu oedi cyn iddo gael ei gyhoeddi ar lefel ranbarthol. Roedd y SYC yn honni nad oedd ganddi’r adnoddau i gyhoeddi data rhanbarthol ar yr un pryd â data cenedlaethol.

- Holwyd ynghylch balans y dynion a merched ar y panel o economegwyr a chytunwyd nad oedd yn foddhaol.

- Cytunwyd y byddai’n ddefnyddiol cael targedau ar y canran o fenywod oedd wedi cychwyn eu busnesau eu hunain a chyfraddau goroesi’r busnesau hyn.

- Dylai fod mwy o ddata ar anabledd ac er nad oedd fawr ddim ar gael ar hyn o bryd ni ddylai hyn fod yn rhwystr iddo fod ar gael yn y dyfodol.

- Ar hyn o bryd nid oes targed yn ymwneud ag allforion a dadleuwyd y dylid cael targedau ar gyfer busnesau bach a chanolig i godi eu lefelau allforio. Dylid dadansoddi nodweddion oedd yn dangos pam fod rhai cwmnïau’n llwyddiannus, gan fod busnesau bach a chanolig llwyddiannus yn tueddu i allforio, yn ymwybodol o’r amgylchedd ac felly’n cyfrannu at lwyddiant cyffredinol yr economi.

- Roedd angen cynyddu cyfradd cychwyn mentrau newydd. Credwyd fod yr economi’n datblygu’n gyflymach po fwyaf y gyfradd gychwyn. Roedd angen mwy o ymchwil yn y maes hwn.

- Yn hytrach na dibynnu ar strategaeth datblygiad cynaliadwy ar wahân, dylid ystyried defnyddio’r

Mynegai ar gyfer Lles Economaidd Cynaliadwy sydd yn y pecyn a anfonwyd at aelodau gan y Sefydliad Economeg Newydd.

- Roedd y panel yn teimlo fod perygl o gael targedau rhy fanwl yn nogfen Amcan 1. Roeddynt yn teimlo mai'r darlun ehangach fyddai'r mwyaf defnyddiol, a byddai'n caniatáu'r hyblygrwydd mwyaf i ymateb i newidiadau yn yr economi.

- Holwyd am y ffigwr cychwynnol a'i gymharu ag ystadegau CDP. Tynnodd y panel sylw at yr angen i wahaniaethau rhwng rhagolygon a ffigurau gwirioneddol y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Ffigurau diweddaraf y swyddfa honno oedd rhai ar gyfer 1997.

**5.5 Crynodeb y Cadeirydd**

- Dylid gwahaniaethu rhwng targedau a gwybodaeth fonitro

- Dylai targedau fod yn eiddo, yn eang a chael eu monitro

- Roedd y Pwyllgor yn dal i fod yn bryderus am wahaniaethau rhanbarthol

- Dylid integreiddio datblygiad cynaliadwy a thargedau economaidd

- Gwahoddwyd Michael Phelps, David Blackaby a Brian Morgan i ddychwelyd i'r cyfarfod pwyllgor ar 13 Hydref i drafod y materion ymhellach (yn enwedig gwahaniaethau rhanbarthol, eu barn am fynegai'r Sefydliad Economeg Newydd a'u barn ar ffynonellau data sylfaenol cyfredol).

**Gweithredu**

**Panel yr Economegwyr**

- Ystyried targedau sy'n ymdrin â gwahaniaethau rhanbarthol, edrych ar ffynonellau data sylfaenol, ac ystyried pa mor ddefnyddiol yw'r mynegai a awgrymwyd gan y fforwm Economeg Newydd. A dychwelyd i'r pwyllgor ar 13 Hydref.

**6. Eitem 6: Dosbarthu adnoddau a materion cyllidol eraill**

6.1 Wrth gyflwyno papur ar faterion cyllidol mynegodd y Cadeirydd siom ei bod wedi ei dderbyn yn hwyr ac nad oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd y Pwyllgor am ei chael.

6.2 Ymddiheurodd Ysgrifennydd y Cynulliad am y sefyllfa hon, oedd wedi codi oherwydd prinder gwybodaeth ddigon cadarn. Roedd yn gobeithio y byddai mewn sefyllfa i gyflwyno papur mwy boddhaol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf. Mynegodd ei fod yn hyderus na fyddai problem cyllido prosiectau yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen.

6.3 Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryder difrifol ynglþn â diffyg y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gyllidebau ERDF. Gofynnwyd am y wybodaeth hon, a derbyniwyd y cais, yn y cyfarfod ar 14 Gorffennaf. Os oedd y wybodaeth ar gael ym mis Gorffennaf, holwyd pam nad oedd y Pwyllgor wedi ei derbyn. Os nad oedd y wybodaeth ar gael, pam oedd cais y Pwyllgor wedi cael ei dderbyn.
- Roedd Ysgrifennydd y Cynulliad wedi dweud nad oedd yn rhagweld unrhyw broblemau gyda chyllid ym mlwyddyn 1, ond, os oedd y wybodaeth ar gael i ganiatáu iddo wneud datganiad o'r fath, holwyd pam nad oedd y wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor
- Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld y manylion canlynol yn y papur cyllid:
  - y ddarpariaeth PES dros oes y rhaglen, wedi ei rhannu yn ôl gwariant ar hen raglenni a rhai newydd, ac yn ôl cronfa (Ewropeaidd);
  - rhagamcan o'r cyfanswm gwariant flwyddyn ar ôl blwyddyn, a faint o arian cyfatebol fyddai ei angen o gyllidebau'r Cynulliad, ffynonellau eraill yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat;
  - Ffynonellau arian cyfatebol posibl. (Atgoffwyd y Pwyllgor na fyddai'r arian cyfatebol i gyd fyth yn dod o'r pwrs cyhoeddus.)

- Mae paragraff 10 (EDC-06-99 (tud.4)) yn cyfeirio at wariant ..... y byddai'n rhaid iddo ddigwydd o fewn 2 flynedd yn dilyn y flwyddyn y gwneir yr ymrwymiad ynddi. Gofynnwyd a oedd hyn yn cyfeirio at ddechrau'r flwyddyn neu ddiwedd y flwyddyn. Eglurwyd ei fod yn golygu'r ddwy flynedd yn dilyn diwedd y flwyddyn pan wnaed yr ymrwymiad.
- Roedd proffil y rhaglen yn dal yn bwnc i'w drafod gyda'r Comisiwn.
- Byddai'r proffil ymrwymiad yn wahanol i'r proffil talu.
- Mae paragraff 18 yn cyfeirio at raglenni sy'n cael eu cwblhau heb oedi. Cadarnhawyd mai'r nod oedd y dylai rhaglenni fynd rhagddynt cyn gynted ag y bo modd. Roedd disgwyl oedi o ddwy flynedd yn y proffil gwario (o Ewrop) ond ni fyddai unigolion yn dioddef oherwydd yr oedi, ond yn hytrach y Cynulliad.
- Roedd y posibilrwydd o gyfnewid cronfeydd preifat a chronfeydd cyhoeddus hefyd yn cael ei drafod gyda'r Comisiwn.
- Roedd trafodaethau ar y gweill o hyd ynglþn â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru o'r Adran Addysg a Chyflogaeth i'r Cynulliad.
- Roedd y map ar gyfer Amcan 2 yn dal i gael ei ystyried ar lefel y DU. Roedd yn debygol y byddai'n cael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

6.4 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn mynychu cyfarfod yn y dyfodol i drafod ei rôl yn y trafodaethau gyda Chomisiwn Ewrop, y broses o sicrhau'r cyllid angenrheidiol a'i brofiad o sicrhau cymhorthion gweithredu ar gyfer Gogledd Iwerddon. (Dyddiad i'w gadarnhau.)

**Cymhorthion gweithredu**

6.5 Yn ystod trafodaethau ar bapur EDC 06-99(tud.5) gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Byddai Cymhorthion Gweithredu'n ffurfio rhan bwysig o'r rhaglenni. Nid oedd yn ofynnol yn ôl CE fod cymorth o'r fath yn cael ei gynnwys yn y Ddogfen Rhaglen Sengl, ond roedd angen ystyried y

pwnc o fewn cyfnod amser tebyg. Byddai'r Ddogfen Rhaglen yn cyfeirio at ystyried cymhorthion gweithredu.

- Roedd angen llawer mwy o waith ar hyn ac roedd gweithgor bychan o aelodau'r Tasglu yn archwilio'r opsiynau.
- Adroddwyd fod ardaloedd gyda statws amcan 1 yn Lloegr wedi cyfarfod i drafod cymhorthion gweithredu. Ni fu Cymru'n rhan o hyn (efallai gan mai dim ond ar gyfer rhanbarthau Lloegr yr oedd) ond ar achlysuron eraill roedd wedi cymryd yr awennau trwy gysylltu ag ardaloedd amcan 1 eraill. Nid oedd swyddogion wedi siarad â'r Trysorlys ynglþn â chymhorthion gweithredu eto ond roedd angen gweithio ar syniadau megis ad-daliadau treth ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu, cyn eu cyflwyno i'r Trysorlys. Hefyd byddai angen siarad ag ardaloedd amcan 1 eraill cyn siarad â'r Trysorlys er mwyn i unrhyw gynigion fod yn unedig eu hagwedd.
- Roedd angen nodi'n glir faint o le sydd i'r Cynulliad gyflwyno cymorth o'r fath.
- Dylid ystyried ymhellach y posibilrwydd o ddefnyddio cymhorthion gweithredu i annog gweithgaredd economaidd ac annog menywod a'r anabl i weithio (ee trwy helpu gyda gofal plant, costau teithio).
- Dylid eu defnyddio i helpu Busnesau Bach a Chanolig oherwydd na fyddai modd cyflawni'r targedau twf ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig heb y cymorth ychwanegol hwn.

**Gweithredu**

**Ysgrifennydd y Cynulliad**

- Cynhyrchu papur cyllid diwygiedig.
- Paratoi papur arall yn trafod yr hyn y mae gan y Cynulliad y pðer i'w wneud, sut y gellid defnyddio cymhorthion gweithredu i annog gweithgaredd economaidd, cyfranogiad, a busnesau bach.

**7 Eitem 7: Cyllido ar ôl dirwyn Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd i ben**

7.1 Yn dilyn y drafodaeth ar flaenoriaethau'r gyllideb yn y cyfarfod blaenorol roedd y Pwyllgor wedi gwneud cais am wybodaeth ynglþn â'r sefyllfa ariannol a'r cytundeb arfaethedig.

7.2 Cyhoeddodd Mr Phil Williams ddiddordeb gan ei fod newydd symud i mewn i fflat ym Mae Caerdydd. Dywedodd y Cadeirydd fod ganddi hithau deimladau cryf ynglþn â'r mater.

7.3 Yn ystod y drafodaeth gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Teitl dros dro oedd 'Awdurdod yr Harbwr' ar gyfer y swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r harbwr. Nid oedd yn golygu y byddai cwango neu gorff ar wahân yn cael ei sefydlu. Y bwriad oedd trosglwyddo'r cyfrifoldeb i Gyngor Sir Caerdydd, gydag adran o'r Cyngor yn cynnal y morglawdd. Byddai'r trosglwyddiad yn werth oddeutu £12 miliwn y flwyddyn. Roedd trafodaethau ar y gweill ers tro a disgwylid iddynt ddod i gytundeb terfynol o fewn dyddiau.
- Dadleuwyd fod cynghorau tebyg yn talu costau datblygiadau eraill, er enghraifft, roedd Abertawe yn cwrdd â chost cynnal a chadw ei forglawdd ei hun, tra bod Caerdydd yn mynd i dderbyn ffigwr mor fawr ar sail benagored. Atebodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod morglawdd Caerdydd yn fenter wedi ei noddi gan y llywodraeth, tra bod Abertawe wedi comisiynu eu morglawdd yn annibynnol.

- Roedd Bro Morgannwg ac Awdurdod Datblygu Cymru i dderbyn arian yn sgil dirwyn y Gorfforaeth i ben wrth dderbyn ymrwymiadau datblygu ee tir a ffyrdd.
- Holwyd Ysgrifennydd y Cynulliad ynghylch y manteision economaidd a gafwyd yng Nghymru o ganlyniad i fuddsoddi swm mor fawr o arian ym Mae Caerdydd. Cyfeiriodd at fuddsoddiad mewnol fel Bank One oedd yn dangos y gwahaniaeth y gallai'r morglawdd ei wneud i economi Cymru.
- Tynnwyd sylw at broblemau cludiant cyhoeddus unwaith y byddai'r morglawdd wedi ei gwblhau. Roedd hyn wedi ei gydnabod ac roedd trafodaethau ar y gweill gyda Associated British Ports i sicrhau cludiant cyhoeddus effeithiol ar gyfer y Bae.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y cyfeiriad ym mharagraff 6 at drosglwyddo asedau. Cadarnhawyd fod hyn yn golygu eu bod i'w trosglwyddo i'r cyrff a restrir ym mharagraff 4.
- Cafwyd sylwadau gan aelodau fod llawer o asedau'n cael eu pasio i Gyngor Sir Caerdydd am byth a'i bod yn anodd cyfiawnhau hyn i weddill Cymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb i drosglwyddo asedau cyn y gellid dirwyn Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben. Roedd union delerau trosglwyddiadau o'r fath yn destun trafodaeth.

**Crynodeb y Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd fod asedau sylweddol yn cael eu trosglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd ac roedd pryder ynglþn â natur benagored y cyllido. Roedd pryder ychwanegol, oni bai fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym, y byddai ansawdd glan y dðr yn dirywio. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn dychwelyd at yr eitem hon ar 3 Tachwedd.